| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **16 Hydref 2008** |
| **TEITL** | **Prosiect Pleidlais Stoc Tai - Dogfen Gynnig Ffurfiol i Denantiaid** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Er penderfyniad** |
| **AWDUR** | **Ffrancon Williams** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i'r Cyngor**<br><br>**a) Ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal 19 Medi a Bwrdd y Cyngor 23 Medi 2008**<br>**b) I gymeradwyo'r Ddogfen Gynnig**<br>**c) Awdurdodi'r Bwrdd i gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Ddogfen Gynnig yn dilyn derbyn sylwadau'r Cynulliad ar y Ddogfen** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Trefor Edwards** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Cyflwynwyd y Ddogfen Gynnig i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal ar y 2 Medi 2008 ac yn ddiweddarach ar y 19 Medi 2008 lle benderfynwyd

**Argymell cymeradwyo'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol i sylw Bwrdd y Cyngor er penderfyniad gyda'r newidiadau canlynol :**

**i) Bod y frawddeg 'Nid yw'r arian hwn ar gael ond trwy drosglwyddo' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â 'Benthyca'.**

**ii) Bod y frawddeg 'Ni fyddai'r Trysorlys yn gwneud hyn pe byddai'r cartrefi'n parhau gyda'r Cyngor - dim ond os bydd trosglwyddo'n digwydd y gwneir hyn,' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â Dyled Tai.**

**iii) Bod penawdau clir yn cael eu gosod ar dablau'n ymdrin â'r denantiaeth sicr, sy'n bodoli ar hyn o bryd, a thenantiaeth sicredig fyddai'n cael ei chyflwyno pe byddai'r tenantiaid yn cefnogi'r trosglwyddo'r stoc tai.**

**iv) Bod Cynghorwyr yn ogystal â swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth lawn i denantiaid y Cyngor ynglŷn â'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol trwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac**

**ymweld â'r stadau.**

**v) Cadarnhau bod y Bwrdd a fyddai'n rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cynnwys 12 aelod – 4 ohonynt yn denantiaid, heb fod o unrhyw ardal arbennig, 4 wedi eu henwebu gan y Cyngor a 4 yn aelodau annibynnol.**

**vi) Bod tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei derbyn i sicrhau na fyddai newidiadau o safbwynt Treth ar Werth pe byddai rheolau elusennol yn newid.**

**vii) Amlygu bod modd i'r tenantiaid, pe byddent yn dewis trosglwyddo'r stoc tai, droi at y Cyngor pe byddai angen er sicrhau fod gwasanaeth o safon yn cael ei roi gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd.**

**viii) Bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n gyson i'r Pwyllgor Craffu Gofal, fel rhan o weithdrefn y Cyngor, fel y gellid monitro perfformiad Cartrefi Cymunedol Gwynedd, pe byddai'r stoc tai yn cael ei drosglwyddo.**

**ix) Bod y Ddogfen Gynnig Ffurfiol yn cynnwys datganiad a luniwyd gan Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd er cyflwyno gwybodaeth bellach i'r tenantiaid a'u hannog i ddefnyddio eu pleidlais.**

**x) Bod trefn yr wyddor Gymraeg yn cael ei dilyn**

1.2 Cyflwynwyd y Ddogfen Gynnig ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal i sylw'r Bwrdd ar y 23 Medi 2008 lle benderfynwyd

**1. Cyflwyno'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol i'w cymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 16 Hydref 2008 yn ddarostyngedig i gynnwys manylion diwygiedig perthnasol yn unol â 2 isod.**

**2. Mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal:-**

**(a) O ran yr argymhellion yn ymwneud â diwygio'r Ddogfen Gynnig, sef**

***i) Bod y frawddeg 'Nid yw'r arian hwn ar gael ond trwy drosglwyddo' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â 'Benthyca';*(Rhan A, tudalen 10)**

***ii) Bod y frawddeg 'Ni fyddai'r Trysorlys yn gwneud hyn pe byddai'r cartrefi'n parhau gyda'r Cyngor - dim ond os bydd trosglwyddo'n digwydd y gwneir hyn,' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â Dyled Tai; (*Rhan A, tudalen 10*)***

**penderfynwyd glynu wrth y gwreiddiol oherwydd bod y Ddogfen Gynnig yn ddogfen gyfreithiol, a bod y manylion sy'n ffeithiol gywir yn atgyfnerthu'r ddogfen.**

**(b) Derbyn yr argymhelliad isod**

**iii)** ***Bod penawdau clir yn cael eu gosod ar dablau'n ymdrin â'r denantiaeth sicr, sy'n bodoli ar hyn o bryd, a thenantiaeth sicredig fyddai'n cael ei chyflwyno pe byddai'r tenantiaid yn cefnogi'r trosglwyddo'r stoc tai*** **(Rhan G, tudalen 2)**

**penderfynwyd ychwanegu'r geiriau o dan deitlau'r colofnau perthnasol gan bwysleisio bod angen sicrhau bod iaith y ddogfen yn syml a bod y negeseuon yn y ddogfen yn cael eu cyflwyno i'r tenantiaid mewn modd oedd yn hawdd eu deall;**

**(c) Gohirio penderfyniad ynglŷn ag argymhelliad (iv) *"bod cynghorwyr yn ogystal â swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth lawn i denantiaid y Cyngor ynglŷn â'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol trwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'r stadau"*, ac ystyried y mater ymhellach yn dilyn derbyn arweiniad y Swyddog Monitro ar fore'r Cyngor;**

**(ch) Ynglŷn ag argymhelliad (v) ac argymhelliad Pwyllgor Ardal Dwyfor am gynrychiolaeth ddaearyddol, dylai Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd gynnwys 12 aelod - 4 wedi eu henwebu gan y Cyngor, 4 yn aelodau annibynnol a 4 ohonynt yn denantiaid, <u>heb fod o unrhyw ardal arbennig</u>, oherwydd problemau cyfreithiol tebygol yn sgil methu â sicrhau aelodaeth o bob ardal. Argymell y dylid cynnwys y geriad canlynol yn y Ddogfen Gynnig "Bydd aelodau'r Bwrdd yn gynrychioliadol o'r ardaloedd lle bo hynny'n ymarferol bosibl, yn unol â pholisi i'w gymeradwyo gan Fwrdd y Gymdeithas maes o law";**

**(d) Derbyn argymhelliad (vi) bod tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei dderbyn i sicrhau na fyddai newidiadau o safbwynt Treth ar Werth pe byddai rheolau elusennol yn newid;**

**(dd) Peidio diwygio'r ddogfen mewn perthynas ag argymhelliad (vii) i *"amlygu bod modd i'r tenantiaid, pe byddent yn dewis trosglwyddo'r stoc tai, droi at y Cyngor pe byddai angen er sicrhau fod gwasanaeth o safon yn cael ei roi gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd"*, oherwydd mai'r Cynulliad fyddai'n gyfrifol am reoleiddio'r gymdeithas newydd. Fodd bynnag bydd y berthynas arferol rhwng aelod ac etholwyr yn parhau o dan y drefn newydd, ond mewn perthynas â swyddogaeth cynghorwyr Gwynedd ar ôl trosglwyddo dylid addasu geiriau "yn union fel ag y maent ar hyn o bryd" sy'n Rhan A (tudalen 12) o'r Ddogfen Gynnig i fod yn fwy cywir ac eglur.**

**(e) O ran argymhelliad (viii) "*bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n gyson i'r Pwyllgor Craffu Gofal, fel rhan o weithdrefn***

***y Cyngor, fel y gellid monitro perfformiad Cartrefi Cymunedol Gwynedd pe byddai'r stoc tai'n cael ei drosglwyddo"*, nodi bod gwaith craffu pwysig i'w gyflawni gan y pwyllgor, fodd bynnag mater i'r pwyllgor craffu ei hun oedd penderfynu ar faterion i'w craffu - o fewn y cyfyngiadau arferol;**

**(f) Cymeradwyo argymhelliad (ix) *"Bod y Ddogfen Gynnig Ffurfiol yn cynnwys datganiad a luniwyd gan Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd er cyflwyno gwybodaeth bellach i'r tenantiaid a'u hannog i ddefnyddio eu pleidlais"***

**3. Cymeradwyo y dylai adrannau'r ddogfen ddilyn trefn y wyddor Gymraeg yn y 2 iaith.**

1.3 Atodir datganiad y Comisiwn Tenantiaid Gwynedd i ddiwedd yr adroddiad yma

## 2.0 Argymhelliad

2.1 Gofynnir i'r Cyngor

a) Ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal 19 Medi a Bwrdd y Cyngor 23 Medi 2008
b) I gymeradwyo'r Ddogfen Gynnig
c) Awdurdodi'r Bwrdd i gymeradwyo unrhyw newidiadau pellach i'r Ddogfen Gynnig yn dilyn derbyn sylwadau'r Cynulliad ar y Ddogfen

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

Mae symyd ymlaen gyda’r prosiect pwysig hwn yn amlwg yn bwysig iawn a mae’r gwaith manwl ar y Ddogfen Gynnig yn cynnig sylfaen ar gyfer y ffordd ymlaen. O ran y cwestiwn o gynnwys dogfen y Comisiwn Tenantiaid o fewn y Ddogfen Gynnig ffurfiol, bydd barn y Pwyllgor Craffu yn allweddol ond diau bod cael llais eglur o du y tenantiaid yn ychwanegu gwerth at y ddogfen.

2. Swyddog Monitro:

Mae hon yn ddogfen bwysig ac yn haeddu sylw manwl gan yr holl aelodau gan mai dyma fydd sail y cynnig. Gan hynny y bwriad yw i'r Cyngor Llawn ei thrafod a gofynnir i'r Bwrdd wneud argymhellion i'r Cyngor. Mae wedi bod yn destun gwaith trylwyr gyda mewnbwn cyfreithiol arbenigol. Nid oes gennyf unrhyw sylw i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

3. Prif Swyddog Cyllid:

Mae cyfrifwyr yn yr Uned Gyllid Gofal wedi cydweithredu gydag ymgynghorwyr arbenigol Weedon-Grant er mwyn sicrhau, i'r gorau o'u gallu, fod yr wybodaeth ariannol sydd yn yr holl ddogfennau hyn yn briodol a chywir. Cyflwynir sylwadau ychwanegol ar lafar, fel bo angen, yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor.

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi:

## Datganiad gan Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd

Bron i dair mlynedd yn ôl, fe ofynodd Cyngor Gwynedd i Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd i archwilio opsiynau'r dyfodol ar gyfer Tai'r Cyngor. Cynhyrchwyd y Ddogfen Gynnig hon gan Gyngor Gwynedd. 'Rydym ni, fel corff sy'n cynrychioli tenantiaid Gwynedd wedi cael cais i roddi ein barn arni.

Wedi i ni edrych yn fanwl ar sut gall ddigon o arian gael ei gynhyrchu i wella ein cartrefi hyd at o leiaf Safon Ansawdd Tai Cymru, a sut y gall amrediad Gwasanaethau Tai y Cyngor gael eu gwella ymhellach, daethom i'r farn mai trosglwyddo perchnogaeth ein tai i gymdeithas tai yw'r unig ddewis a all gyflawni y ddau nôd yma.

Derbyniodd y Cyngor yr argymhelliad hwnnw a dechreuwyd ar y broses o ddatblygu'r cynnig i drosglwyddo ag ymgynghori â thenantiaid ar y cynnig hwnnw.

Fodd bynnag, fe wnaethom yn glir o'r dechrau, er ein bod yn cydnabod mai trosglwyddo yn unig all gyrraedd anghenion buddsoddiad ein cartrefi o ganlyniad i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ariannu Tai Cyngor, y byddai'r cwestiwn os fyddem yn cefnogi trosglwyddo neu beidio hefyd yn dibynnu ar natur y Gymdeithas Tai arfaethedig, ac ar y cynnig a wneir i denantiaid yn sgîl trosglwyddo.

Fe ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer cymdeithas tai. Mae'r Comisiwn yn fodlon fod y gymdeithas tai sy'n cael ei ddatblygu, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf, yn gymdeithas annibynnol, di-elw a sefydlir yn lleol ac yn atebol yn lleol, sydd yn cael ei redeg gan ei Fwrdd ei hun gyda 4 aelod sy'n denantiaid, 4 aelod sy'n Gynghorydd a 4 yn aelod annibynnol.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi bod yn gweithio drwy gydol y 3 mlynedd diwethaf ar faterion tai Cyngor amrywiol, ac 'rydym wedi ymwneud yn agos iawn yn natblygiad manylion y ddogfen gynnig hon. 'Rydym yn credu y byddai cyflawni yr addewidion hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn a phositif i fywydau pob tenant, ac i'n cymunedau a'n cymdogaethau.

Mae nifer ohonom wedi bod yn denantiaid Cyngor ar hyd ein hoes, ac nid yw ystyried newid wedi bod yn hawdd i ni. 'Rydym yn credu er hynny y byddai cyflawni yr addewidion sydd o fewn y ddogfen hon yn newid gwirineddol er gwell.

**Felly darllenwch y ddogfen os gwelwch yn dda…… a beth bynnag fo eich barn sicrhewch eich bod yn DEFNYDDIO EICH PLEIDLAIS!**